# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Medi 2025

Amser: 09.50 - 12.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15351

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Andrew RT Davies AS (Cadeirydd)<br>Hannah Blythyn AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Keith Smyton, Llywodraeth Cymru<br>David Chapman, UK Hospitality Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Nicole Haylor-Mott (Dirprwy Glerc)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd)<br>Ben Stokes (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Agorodd y Cadeirydd gyda theyrnged i Hefin David AS, a fu farw'n drist iawn ym mis Awst, a gofynnodd i'r Aelodau fyfyrio am ychydig.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Luke Fletcher AS, sydd ar absenoldeb tadolaeth ar hyn o bryd – gwnaeth y Cadeirydd ei longyfarch ar ran y Pwyllgor.

1.4 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Andrew RT Davies AS, Jenny Rathbone AS a Samuel Kurtz AS fuddiant mewn perthynas â phwnc cyfarfod y Pwyllgor hwn.

## 2 Prosesu Bwyd: Panel 5

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Chapman (UKHospitality Cymru).

## 3 Prosesu Bwyd: Panel 6

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Irranca-Davies AS, (y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru), gyda chefnogaeth ei swyddogion, Gian Marco Currado a Keith Smyton.

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i ddilyn i fyny gyda'r Dirprwy Brif Weinidog yn ysgrifenedig gyda rhai cwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

4.2 Marchnad Goch Tafod Glas Cymeradwy

4.3 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad)

4.4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod o’r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

4.5 Blwyddyn Pump Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru: Craffu ar y Bil Milgwn a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr

4.6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 43ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

4.7 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE

4.8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

4.9 Deiseb P-06-1488 Sefydlu ‘Cymdeithas Gofal’ i fynd i’r afael â’r argyfwng COVID hir yng Nghymru

4.10 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Dilyniant i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 - Materion Gwledig

4.11 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Dilyniant i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 - Materion Gwledig, Masnach Ryngwladol, yr Economi a Sgiliau

4.12 Banc Datblygu Cymru

4.13 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Dilyniant i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 - Economi

4.14 Gwaharddiad arfaethedig ar rasio milgwn yng Nghymru

4.15 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Gweithgaredd Cynhwysiant Digidol yng Nghymru

4.16 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol

4.17 Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

4.18 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

4.19 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau): Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

4.20 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant

4.21 Porthladd Rhydd Ynys Môn

4.22 Bargeinion Dinesig a Thwf Rhanbarthol Cymru

4.23 Ynni Prydain Fawr: Datganiad o Flaenoriaethau Strategol

4.24 Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Prosesu Bwyd: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2 a 3.

## 7 Trafodaeth am Ohebiaeth Fforwm y Cadeiryddion: Adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor

7.1 Trafododd y Pwyllgor eu barn ar alwad Fforwm y Cadeiryddion am dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd pwyllgorau dros y Senedd hon, a chytunodd i ymateb yn ffurfiol i adrodd yn ôl ar y drafodaeth hon.

## 8 Trafod y Flaenraglen Waith

8.1 Trafododd y Pwyllgor y rhaglen waith ar gyfer y tymor hwn, gan gynnwys yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru).

8.1 Cytunodd y Pwyllgor i ymateb i lythyr y Pwyllgor Busnes ar hyn, yn dilyn ei gais am farn y Pwyllgor.

## 9 Sesiwn i gau pen y mwdwl yn dilyn yr ymweliad â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd

9.1 Trafododd y Pwyllgor eu hymweliad diweddar â'r Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar 18 Medi 2025, gan gynnwys cytuno i ddrafftio gohebiaeth ddilynol.